Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Beuno Sant Y Bala
# Heol y Castell
# Bala
# Gwynedd
# LL23 7UU

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Beuno Sant yn ysgol gynradd wirfoddol dan gymorth yr Eglwys yng Nghymru sy’n gwasanaethu tref y Bala a’r cyffiniau. Mae 51 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae’r niferoedd wedi gostwng dros y blynyddoedd. Mae’r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn i’r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Mae’r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn tri dosbarth cymysg eu hoedran, un dosbarth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a dau ddosbarth yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 20% o ddisgyblion â’r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd, sydd yn agos at gyfartaledd Cymru. Daw 58% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Fodd bynnag, mae’r ysgol yn nodi mai dim ond 6% o ddisgyblion sydd o gefndir lle’r Gymraeg yw prif iaith yr aelwyd. Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a’r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg gyda’r nod o’u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol uwchradd yn 11 oed. Mae tua 34% o’r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy’n cynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn mis Mawrth 2008. Mae’r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2005. Yn ystod yr arolygiad, pennaeth dros dro a’r pennaeth cynorthwyol oedd yn arwain yr ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Beuno Sant yn 2013-2014 yw £4,239. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,616, a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Beuno Sant yn safle 45 o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod mwyafrif y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol yn eu grwpiau ac yn ymateb yn briodol i'w tasgau;
- bod perfformiad yr ysgol mewn mathemateg ar lefel 5 neu uwch wedi bod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf;
- bod cyflwyniadau bywiog yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus ar frig yr ysgol; a bod
- yr ysgol yn adnabod anghenion dysgu disgyblion yn gynnar, ac yn darparu cymorth ychwanegol priodol iddynt.

Fodd bynnag:

- mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn ystod tair o'r pedair blynedd diwethaf;
- mae presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 25% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg;
- nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau ar draws y cwricwlwm a'r meysydd dysgu digon;
- cyfyng yw ystod ysgrifennu estynedig ac annibynnol disgyblion;
- nid yw cynlluniau ar waelod cyfnod allweddol 2 nac yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos dilyniant a pharhad yn y medrau ac nid yw tasgau bob amser yn ddigon heriol; ac
- nid yw'r marcio yn sicrhau bod disgyblion yn deall yn well yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod yr uwch dîm rheoli a sefydlwyd yn ddiweddar wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith yn seiliedig ar godi safonau;
- bod y ddogfen hunanarfarnu bresennol yn rhoi darlun cytbwys o fywyd a gwaith yr ysgol, ac wedi ei seilio ar arfarniad o'r meysydd i'w datblygu; a
- bod yr ysgol wedi gosod prosesau cadarn yn eu lle i godi safonau presenoldeb yr ysgol.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr yr ysgol wedi gweithredu'n ddigon effeithiol ar wybodaeth yn deillio o'r monitro er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau yn y cynllunio a'r

addysgu;
- nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n ddigon effeithiol; ac
- nid oes gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o berfformiad yr ysgol er mwyn herio'r ysgol am ei pherfformiad.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau ysgrifennu ar draws yr ysgol

A2 Codi lefelau presenoldeb y disgyblion

A3 Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn fwy effeithiol yn enwedig o ran y cynllunio a'r addysgu

A4 Ymestyn lefel yr her i ddisgyblion o allu uwch ar draws yr ysgol

A5 Mireinio'r gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall yn well yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith

A6 Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu a monitro prosesau'r ysgol yn fwy effeithiol er mwyn gwella cyflawniadau disgyblion

A7 Datblygu dealltwriaeth y llywodraethwyr am ddata perfformiad yr ysgol er mwyn iddynt herio'r ysgol a gweithredu'n fwy effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn briodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn gallu siarad am eu gwaith yn hyderus gan roi trefn ar eu syniadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Mae rhan fwyaf yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa ehangach o fewn cyd-destun y gwaith. Enghraifft o hyn yw'r gallu i gynnal trafodaeth aeddfed wrth i ddisgyblion drafod a rhesymu canlyniadau ymchwiliad gwyddonol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn briodol i'w hoed a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn darllen i'w gwir botensial. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon yn y ddwy iaith, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r testun. Maent yn darllen yn ystyrlon gan gynnal diddordeb y gwrandäwr yn dda. Mae mwyafrif o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio uwch fedrau darllen yn hyderus wrth gywain gwybodaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae lleiafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol ac yn annibynnol gan ddefnyddio cystrawen a geirfa syml. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig nac yn atalnodi eu gwaith yn gyson. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio cystrawen chwithig yn eu gwaith ysgrifenedig Cymraeg. Mae safon ysgrifennu mwyafrif y disgyblion yn fwy cywir yn y Saesneg. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn datblygu eu syniadau'n ddiddorol yn y Saesneg, gan ddefnyddio geirfa ehangach. Yn gyffredinol, mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn flêr.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn effeithiol yn eu gweithgareddau dysgu. Mae'r mwyafrif yn medru casglu, cofnodi a dehongli data yn briodol, gan ddefnyddio ystod gynyddol o ffynonellau. Fodd bynnag, nid yw medrau mesur ychydig o ddisgyblion wedi datblygu i'r un graddau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o batrymau rhif ac maent yn gwneud cyfrifiadau yn y pen ac yn egluro'r strategaethau a ddefnyddiant yn effeithiol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau datrys problemau yn hyderus. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r disgyblion yn medru costio bwydlen wythnos i deulu yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae

rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn hyderus ar y cwricwlwm. Yn eu gwersi gwyddoniaeth, er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn cyflwyno gwybodaeth mewn graffiau llinell manwl.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol yn eu grwpiau ac yn ymateb yn briodol i'w tasgau, ond nid yw gallu disgyblion i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi datblygu cystal.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o un flwyddyn i'r nesaf o'i gymharu â meincnodau.

Yn gyffredinol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig ymhob maes dysgu wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2013, roedd gostyngiad amlwg i'w weld yng nghanrannau'r disgyblion a gyrhaeddodd ddeilliant 5 mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 mewn llythrennedd yn cymharu'n fwy ffafriol. Fodd bynnag, ni lwyddodd unrhyw ddisgybl i gyrraedd deilliant 6 mewn datblygiad mathemategol y llynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol wedi perfformio rhwng y 50% is a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf ymhob pwnc craidd. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch, sef lefel 5 neu uwch, wedi amrywio. Mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% isaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, tra bod perfformiad mewn mathemateg yn cymharu'n fwy ffafriol ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n effeithiol gydag unrhyw fygythiadau. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a'r effaith mae ymarfer corff rheolaidd yn ei chael ar y corff.

Yn ystod tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 25% isaf o'i gymharu â lefelau presenoldeb ysgolion tebyg.

Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda ac maent yn dangos parch a chwrteisi tuag at ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd ac yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn hyderus wrth wneud dewisiadau a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rôl weithredol mewn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r adnoddau a brynwyd i ddisgyblion eu defnyddio yn ystod amser chwarae.

Mae'r disgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac yn cymryd rôl weithredol yn y gymuned. Drwy ymweld â busnesau a chartrefi henoed lleol yn rheolaidd, mae dealltwriaeth a balchder mwyafrif y disgyblion o'r gymuned a'r ardal leol yn datblygu'n effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Er hynny, nid oes digon o fanyldeb yn rhan fwyaf y cynlluniau tymor byr, yn enwedig o safbwynt sicrhau lefel briodol o her yn y gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu lleiafrif o ddisgyblion i gyflawni cystal ag y gallent ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio'u medrau ar draws y cwricwlwm a'r meysydd dysgu. Mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ysgrifennu estynedig ac annibynnol y disgyblion yn y dosbarthiadau hyn. Mae'r cynllunio cadarn sydd ar frig yr ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm. Mae gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd hefyd wedi eu hymgorffori yn y cynlluniau hyn. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau ar waelod cyfnod allweddol 2 na'r Cyfnod Sylfaen yn dangos dilyniant a pharhad yn y medrau.

Mae'r ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol drwy wahodd beirdd ac artistiaid preswyl i'r ysgol yn achlysurol er mwyn cefnogi a datblygu ymhellach eu hunaniaeth Gymreig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda. Mae gan yr ysgol gysylltiadau addas gyda Tanganyika. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o fywyd a gwaith mewn gwledydd tramor yn llwyddiannus. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am yr amgylchedd a gweithredu'n gynaliadwy.

**Addysgu: Digonol**

Yn gyffredinol, mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion. Mae'r athrawon yn modelu iaith glir, sy'n cyfrannu'n briodol at safonau iaith lafar y disgyblion.

Mewn hanner o'r gwersi, pan fo'r addysgu ar ei orau, yn enwedig ar frig yr ysgol, mae cyflwyniadau bywiog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynllunio'n fanwl ac mae gan athrawon disgwyliadau uchel. Mewn ychydig o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r cynllunio'n ddigon manwl ac nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith ond nid ydynt yn cael eu gweithredu'n gyson nac yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn dechrau gosod eu meini prawf llwyddiant eu hunain a dechrau cymryd mwy o rôl yn eu dysgu.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd.  Yn y mwyafrif o'r dosbarthiadau, lle mae'r marcio yn fwyaf effeithiol, mae'n cynnig sylwadau defnyddiol.  Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau yn arwain y disgyblion yn ddigon llwyddiannus i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.  Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwella ar eu hymdrechion cyntaf.

Mae'r ysgol yn defnyddio canfyddiadau asesu'n addas i adnabod grwpiau penodol o ddisgyblion ac i osod darpariaeth briodol ar eu cyfer er mwyn gwella safonau.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth glir ar gynnydd a chyflawniad eu plant drwy adroddiadau canol a diwedd blwyddyn yn cynnwys sylwadau ar y ffordd ymlaen.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae Ysgol Beuno Sant yn gymuned ofalgar.  Mae gan yr ysgol bolisïau a threfniadau cadarn yn eu lle sy'n cefnogi iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus.  Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Cefnogir hyn yn dda drwy wersi chwaraeon a thrwy ddigwyddiadau fel yr 'Wythnos Ffrwythau'.  Mae disgyblion yr ysgol yn cael cyfleoedd gwerthfawr i fynegi barn ac i dderbyn cyfrifoldebau trwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco.

Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol drwy rannu tystysgrifau 'seren yr wythnos' i wobrwyo gwaith da.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus trwy wasanaethau dosbarth ac ysgol gyfan.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn cydymffurfio'n llawn a'r cod ymarfer.  Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu disgyblion yn gynnar, ac yn darparu cymorth ychwanegol addas fel bo'r angen.  Mae'n defnyddio rhaglenni ymyrraeth priodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd unigolion, ac fe wneir defnydd effeithiol o gymorthyddion dosbarth i gefnogi'r dysgu.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth ac arweiniad asiantaethau allanol arbenigol yn rheolaidd.  Mae hyn wedi arwain at wella'r ddarpariaeth ar gyfer carfan o ddisgyblion ag anghenion dwys.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae Ysgol Beuno Sant wedi llwyddo i greu ethos cartrefol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.  Hyrwyddir cydraddoldeb yn llwyddiannus o fewn yr ysgol a chaiff y disgyblion eu cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau'r ysgol.  Mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw priodol drwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.  Enghraifft effeithiol o hyn yw'r gwaith a wneir ar Tanganyika.

Mae'r adeilad o ansawdd priodol ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r safle eang. Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd ysgogol lle mae'r arddangosfeydd yn dathlu gwaith y disgyblion yn dda. Caiff yr holl safle ei chadw'n raenus. Mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Dros gyfnod a amser, mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn aneffeithiol. Ni lwyddwyd i wneud digon i fynd i'r afael â diffygion mewn agweddau pwysig ar y ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhoi sylw addas i fwyafrif o flaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, ni roddwyd digon o gynhaliaeth i weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, ac mae diffyg cysondeb mewn agweddau pwysig ar asesu ar gyfer dysgu yn parhau.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth dros dro a'r pennaeth cynorthwyol wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. O fewn amser byr, sefydlwyd uwch dîm rheoli a rhoddwyd nifer o strategaethau cadarn ar waith yn seiliedig ar godi safonau. Mae'r uwch dîm rheoli yn dechrau cymryd rhan fwy gweithredol wrth fonitro safonau'r addysgu a'r dysgu gan gyfrannu at gyfeiriad i strategol yr ysgol. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith y prosesau diweddar hyn ar safonau'r ysgol.

Mae cofnodion cyfarfodydd uwch dîm rheoli a chyfarfodydd staff diweddar yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau a gosod targedau gwelliant. Fodd bynnag, prin yw dealltwriaeth rhan fwyaf o'r athrawon am safonau cyflawniad disgyblion a pherfformiad yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r corff llywodraethol wedi derbyn adroddiadau manwl am berfformiad yr ysgol. Mae ychydig o'r llywodraethwyr hefyd wedi ymweld â'r ysgol i wella eu dealltwriaeth o waith a safonau'r ysgol. Serch hynny, nid oes gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon manwl o berfformiad yr ysgol er mwyn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad. Dros gyfnod o amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi cyfrannu'n ddigon effeithiol at bennu cyfeiriad strategol i waith yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yn seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth gan gynnwys data cyrhaeddiad, deilliannau prosesau monitro diweddar, ymatebion i holiaduron disgyblion a llywodraethwyr, a barn rhieni. Ar y cyfan, mae'r ddogfen yn rhoi darlun cytbwys o fywyd a gwaith yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau monitro yn ddadansoddol, ac yn nodi cryfderau a meysydd datblygu'n briodol. Mae canfyddiadau'r broses o graffu ar lyfrau yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y staff o safonau'r ysgol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr ysgol wedi gweithredu'n ddigon

effeithiol ar wybodaeth yn deillio o'r monitro diweddar er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau yn y cynllunio a'r addysgu.

Mae cysylltiad clir rhwng y ddogfen hunanarfarnu a'r cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Mae hefyd yn cynnwys targedau mesuradwy ar gyfer adolygu'r cynnydd. Mae'r ysgol wedi gosod prosesau cadarn yn eu lle i godi safonau presenoldeb yr ysgol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau cadarn. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn effeithiol trwy gylchlythyron rheolaidd. Mae'r rhieni yn weithredol ym mywyd dyddiol yr ysgol wrth rannu arbenigeddau mewn gweithgareddau allgyrsiol megis y clwb celf.

Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithol. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod leol ac yn cyfrannu rheolaidd i gylchgrawn yr Eglwys, 'Cloch y Llan'. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion yn dda o bwysigrwydd y gymuned leol.

Mae cydweithio'n llwyddiannus gyda swyddogion lles a seicolegwyr addysg yr awdurdod wedi arwain at wella'r ddarpariaeth ar gyfer carfan o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a chodi cyfradd bresenoldeb yr ysgol.

Mae trefniadau addas wedi eu sefydlu gyda'r cylch meithrin lleol er mwyn hwyluso trosglwyddo'r plant i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag ysgolion y dalgylch i rannu arfer dda ac ar brosiectau i godi safonau llythrennedd. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion y dalgylch, i gymedroli gwaith disgyblion er mwyn sicrhau cysondeb yn eu hasesiadau. Mae hyn wedi codi hyder yr athrawon i asesu a lefelu gwaith y disgyblion. Mae cydweithio effeithiol gyda'r ysgol uwchradd yn sicrhau pontio llwyddiannus i'r disgyblion a'u paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r staff addysgu a'r staff cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o arbenigedd athrawes sy'n cymryd y cyfnodau hyn i addysgu cerddoriaeth i'r disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn eu lle ar gyfer yr holl staff.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn elwa ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant mewn meysydd penodol ac i arsylwi ar arfer dda mewn ysgolion eraill. Mae'r athrawon a'r

cymorthyddion yn cyfranogi mewn cymunedau dysgu tu hwnt i'r ysgol, ac mae'r rhain yn dechrau cael effeithiol ar godi safonau ysgrifennu.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol yr ysgol yn briodol ac yn sicrhau eu bod yn gysylltiedig â'r cynllun datblygu.  Mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n addas gan y pwyllgor cyllid a'r awdurdod lleol.

O ystyried cyflawniad disgyblion, digonol yw'r gwerth am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o un flwyddyn i'r nesaf o'i gymharu â meincnodau.

Yn gyffredinol, dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig ymhob maes dysgu wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Yn 2013, roedd gostyngiad amlwg i'w weld yng nghanrannau'r disgyblion a gyrhaeddodd ddeilliant 5, mewn llythrennedd, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd perfformiad yr ysgol islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru. Mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 mewn sgiliau iaith llythrennedd a chyfathrebu yn cymharu'n fwy ffafriol ac yn perfformio'n agos at gyfartaleddau Cymru. Ni lwyddodd unrhyw ddisgybl i gyrraedd deilliant 6 mewn datblygiad mathemategol nac mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn 2013.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae'r ysgol wedi perfformio rhwng y 50% is a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf yn yr holl bynciau craidd. Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 25% isaf mewn Cymraeg o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 4 mewn ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn sylweddol islaw cyfartaleddau Cymru am y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch, sef lefel 5 neu uwch, wedi amrywio. Mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg tra bod perfformiad mewn mathemateg yn cymharu'n fwy ffafriol ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canrannau'r disgyblion a gyrhaeddodd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth wedi gostwng yn sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi bod islaw cyfartaleddau Cymru am y pedair blynedd ddiwethaf.

Yn gyffredinol, nid oes patrwm arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae'r bechgyn yn perfformio'n well ar lefel 5 mewn mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol mae cyflawniadau disgyblion sydd heb yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl yn perfformio'n well o gymharu â'r disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl ar y deilliannau a'r lefelau uwch.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 28 | 28<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 28 | 27<br>96%<br>92% | 1<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 28 | 27<br>96%<br>97% | 1<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 28 | 28<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 28 | 28<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 28 | 26<br>93%<br>96% | 2<br>7%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 28 | 28<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 28 | 28<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 28 | 26<br>93%<br>91% | 2<br>7%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 28 | 26<br>93%<br>95% | 2<br>7%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 28 | 25<br>89%<br>77% | 3<br>11%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 28 | 24<br>86%<br>84% | 4<br>14%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 16 | 3 | 10 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 19% | 62% | 19% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 16 | 6 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 38% | 62% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 16 | 4 | 12 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 25% | 75% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 16 | 2 | 12 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 12% | 75% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 16 | 3 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 19% | 75% | 6% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 16 | 3 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 19% | 75% | 6% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 16 | 4 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 25% | 69% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 16 | 2 | 11 | 2 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 12% | 69% | 12% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 3 | 10 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 19% | 62% | 6% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 3 | 11 | 2 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 19% | 69% | 12% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 16 | 5 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 31% | 62% | 6% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 16 | 3 | 10 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 19% | 62% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 3 | 9 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 20% | 60% | 20% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 16 | 4<br>25% | 8<br>50% | 3<br>19% | 1<br>6% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 16 | 3<br>19% | 11<br>69% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 16 | 4<br>25% | 12<br>75% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 15 | 1<br>7% | 8<br>53% | 3<br>20% | 1<br>7% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 3<br>19% | 12<br>75% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 16 | 3<br>19% | 10<br>62% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Dylan Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Gareth Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robert Roberts | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.